



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 3 Mehefin 2025 am 6.00yh
yn rhithiol ac yn Ystafell Cyfarfod, Tŷ Cadwgan Castell Aberteifi
mewn lein a canllawiau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 3 May 2025 at 6.00pm
virtually and at a Meeting Room, Cadwgan House, Cardigan Castle
in line with guidelines of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021.

Presennol/Present—Y Cynghorwyr/Councillors: Olwen Davies (**yn y gadair** / in the chair), Catrin Miles, Richard Davies, Siân Maehrlein, David Maehrlein, Nick Bolton, John Adams-Lewis, Teresa Harries, Philippa Noble, Elaine Evans, Clive Davies (joined 6.20pm-6.50pm), Mark Cole, Richard Jones, Mike Lewis (Tivyside) Llinos Haf-Jones (**Cyfieithydd** / Translator) a / and Eleri Maskell (**Clerc/Clerk**).

Cyflwyniad gan Gyfeillion Grŵp Adfywio Pwll Aberteifi.

Ymunodd Steve Rice, Di Champion a Sarah Austin â chynghorwyr i amlinellu eu syniadau ar gyfer eu hymgyrch i ailagor y cyfleuster. Penderfynodd y cynghorwyr ysgrifennu llythyr cefnogaeth ffurfiol i'w rannu gyda'r holl randdeiliaid. Cytunasant i ysgrifennu at Eifion Evans, Prif Weithredwr Cyngor Sir Ceredigion i holi pam roedd y cyngor unedol yn gwrthod ymgysylltu â'r grŵp. Rhoddasant ganiatâd i faner SOS Achubwch ein Pwll Cyfeillion Pwll Aberteifi gael ei gosod ar ffens Brenin Siôr V i gyflwyno eu hymgyrch i gynulleidfa ehangach. Cytunodd y Cynghorwyr Sir Elaine Evans a Siân Maehrlein, y Maer, y Cynghorydd Olwen Davies, a'r Cynghorydd Trystan Phillips i fynychu cyfarfodydd yn y dyfodol a rhoi eu cefnogaeth i symud yr ymgyrch ymlaen.

Presentation by Friends of Cardigan Pool Revival Group.

Steve Rice, Di Champion and Sarah Austin joined councillors to outline their ideas for their campaign to reopen the facility. Councillors resolved to write a formal letter of support to be shared with all stakeholders. They agreed to write to Eifion Evans, Chief Executive for Ceredigion County Council to enquire why the unitary council were refusing to engage with the group. They gave permission for the Friends of Cardigan Pool SOS Save our Pool banner to be placed on the King George V fence to introduce their campaign to a wider audience. County Cllrs Elaine Evans and Siân Maehrlein, the Mayor, Cllr Olwen Davies, and Cllr Trystan Phillips all agreed to attend future meetings and afford their support to moving the campaign forward.

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

Croesawodd y Maer, y Cyng Olwen Davies, ei chyd-gynghorwyr i'r cyfarfod a diolchodd iddynt am eu presenoldeb. Rhannodd y Maer gyda'i chyd-gynghorwyr ei bod wedi cytuno i gael ei chyfweld ynghylch y cynnydd diweddar mewn ffioedd parcio ar gyfer rhaglen newyddion S4C, ond y byddai'n sicrhau mai ei barn hi oedd yr ymatebion i'r cyfweiliadau, ac nid barn y cyngor llawn. Cytunwyd y byddai cost parcio yn cael ei roi ar Agenda mis Gorffennaf, er mwyn ystyried barn a dymuniadau masnachwyr canol y dref sy'n cyfarfod yr wythnos hon. Ni nodwyd unrhyw faterion personol pellach.

The Chair's Welcome and Personal Matters.

The Mayor, Cllr Olwen Davies, welcomed her fellow councillors to the meeting and thanked them for their presence. The Mayor shared with her fellow councillors that she had agreed to be interviewed regarding the recent increase in parking charges for a S4C news programme, but would ensure that interview responses were her opinion and not that of full council. Cost of parking was agreed to be placed on the July Agenda, to consider the opinion and wishes of town centre traders who are meeting this week. No further personal matters were noted.

2. I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb a cytuno a'r rhesymau a roddwyd.

Y Cyng Trystan Phillips – gwrthdaro cyfarfodydd.

To receive apologies for absence

To receive, and consider for approval, apologies for absence and reasons given.

Cllr Trystan Phillips – clash of meetings.

3. I dderbyn datganiadau o ddiddordeb

Atgoffir aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant ar unrhyw eitem ar yr Agenda hon ar yr adeg hon neu ar unrhyw adeg yn ystod y cyfarfod yn unol â Chod Ymddygiad Cyngor Tref Aberteifi.

To receive declarations of interest

Members are reminded to declare any interest on any item on this Agenda at this point or at any point during the meeting in accordance with Cardigan Town Council's Code of Conduct.

Y Cyng / Cllr Siân Maehrlein: <i>Pob mater yn ymwneud â chynllunio</i> / All matters relating to planning.	<i>Mae'r cynghorwyr yn eistedd ar y pwyllgor cynllunio</i> / The councillors sits on the planning committee.
Y Cyng / Cllr Richard Jones: <i>Eitem 8 / Item 8 – Cais cynllunio</i> / Planning Application A250297 – Penparc Sand and Gravel.	<i>Mae'r cyngorydd yn berchen ar y tir cyfagos</i> / The councillor owns the neighbouring land.
Y Cyng / Cllr Philippa Noble: <i>Eitem 8 / Item 8 – Cais cynllunio</i> / Planning Application A250312 – Black Lion Hotel.	<i>Mae merch y Cyngorydd yn gweithio i'r ymgeisydd</i> / The Councillor's daughter works for the applicant.
Y Cyng / Cllr Richard Jones: <i>Eitem 8 c) Gohebiaeth Rhif 81</i> / Item 8. c) Correspondence No 81: <i>Clwb Rhwyfo Aberteifi</i> / Cardigan Rowing Club.	<i>Mae'r cynghorwyr yn aelod o'r pwyllgor</i> / The councillors is a member of the committee.
Y Cyng / Cllr Siân Maehrlein: <i>Eitem 8 c) Gohebiaeth Rhif 92</i> / Item 8. c) Correspondence No 92: Jane Dodds MS – <i>ailsefydlu gwasanaeth gofal brys yn y CIIA</i> / reinstating emergency care service at the CICC.	<i>Mae merch y Cyngorydd yn gweithio yn y CIIA</i> / The Councillor's daughter works at the CICC.
Y Cyng / Cllr David Maehrlein: <i>Eitem 8 c) Gohebiaeth Rhif 92</i> / Item 8. c) Correspondence No 92: Jane Dodds MS – <i>ailsefydlu gwasanaeth gofal brys yn y CIIA</i> / reinstating emergency care service at the CICC.	<i>Mae merch y Cyngorydd yn gweithio yn y CIIA</i> / The Councillor's daughter works at the CICC.
Y Cyng / Cllr Richard Davies: <i>Eitem 8 c) Gohebiaeth Rhif 129 a 130</i> / Item 8. c) Correspondence No 129 and 130: <i>Blodau canol tref</i> / Town centre flowers.	<i>Y Cyngorydd sy'n gyfrifol am flodau canol y dref</i> / The Councillor is responsible for the town centre flowers.
Y Cyng / Cllr Richard Davies: <i>Eitem 8 f) Dyfynbrisiau ar gyfer chwistrellu lladdwyr chwyn</i> / Item 8. f) Quotes for spraying weed killer.	<i>Y Cyngorydd yw ein Bachan Deche</i> / The Councillor is our Handyman.

4. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

I gytuno a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth 6 Mai 2025.

Cynigiodd y Cynghorwyr fod cofnodion cyfarfod y cyngor nos Fawrth 6 Mai yn cael eu cofnodi fel rhai cywir.

Minutes of last meeting

To approve and sign minutes of the meeting held on Tuesday 6 May 2025.

The Councillors proposed that the Tuesday, 6 May council meeting minutes be recorded as correct.

5. Adroddiad y Clerc

I dderbyn adroddiad gan Glerc y dref yn amlinellu'r camau a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mai 2025.

- Bydd y Lleng Brydeinig Frenhinol yn cynnal gwasanaeth byr wrth y senotaff am 10.45 ddydd Sadwrn 28 Mehefin i ddathlu Diwrnod y Lluoedd Arfog.
- Rydym wedi cael ein dewis i ymuno â grŵp o 10 cyngor allan o 39 a fynegodd ddiddordeb, ledled Cymru, i gymryd rhan mewn Asesiad Glaswelltiroedd Mwynderau. Cynllun peilot yw hwn sy'n cael ei reoli gan Rachel Carter, Swyddog Mannau Lleol ar gyfer Natur, Un Llais Cymru. Darperir pecyn cymorth i galluogi'r Pwyllgor Bioamrywiaeth fonitro darn o dir ar gyfer rhywogaethau planhigion, a fydd, maes o law, yn llywio arfer gorau, er mwyn annog yr amgylchedd gorau ar gyfer natur yn ein hardal.
- Gweminar Un Llais Cymru - Ymgynghoriadau Cymunedol Effeithiol: Cynnwys Preswylwyr mewn Penderfyniadau; Dydd Mawrth 20 Mai; Ar ôl mynychu'r sesiwn hon mae angen i'r cyngor wella eu hymgysylltiad cymunedol. Mae'r cynigion yn cynnwys holiadur blynyddol i'w ddosbarthu ar-lein a chopïau papur; stondinau Sioe a Ffair Aberteifi yn rhannu gwybodaeth am weithgareddau cyngor y dref; Noson Gwobrau Grantiau Blynyddol.
- Mae'r Lleisiau Eraill yn hysbysebu eu digwyddiad gan ddefnyddio ein dalwyr baneri polyn lamp rhwng 7 Medi a 2 Tachwedd 2025.
- Cynhelir digwyddiad Ymgynghori ar y Cynllun Gwasanaethau Clinigol yn Neuadd y Dref, Aberteifi rhwng 2-7yh ddydd Mawrth 8 Gorffennaf. Mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn ar ofal critigol, llawdriniaeth gyffredinol frys, strôc, endosgopi, radioleg, dermatoleg, orthopedeg ac wroleg.

Clerk's report

To receive a report from the Town Clerk outlining actions taken following the meeting held on 6 May 2025.

- The Royal British Legion will be holding a short service at the cenotaph at 10.45 on Saturday 28 June to celebrate Armed Forces Day.
- We have been successfully selected to join a group of 10 councils out of 39 who expressed an interest, across Wales, to take part in an Amenity Grassland Assessment. This a pilot scheme being managed by Rachel Carter, Local Places for Nature Officer, One Voice Wales. A toolkit will be provided to enable the Biodiversity Committee to monitor a piece of land for plant species, which will in due course, inform best practice, to encourage the best environment for nature in our area.
- One Voice Wales Webinar - Effective Community Consultations: Engaging Residents in Decision Making; Tuesday 20 May; On attending this session the council need to improve their community engagement. Proposals include an annual questionnaire to be distributed on line and paper copies; Cardigan Show and Fair stalls sharing information on town council activities; Annual Grant Awards Evening.
- The Other Voices will advertise their event using our lamppost banner holders between 7 September and 2 November 2025.
- There is a Clinical Services Plan Consultation event in the Guildhall, Cardigan between 2-7pm on Tuesday 8 July. The consultation is seeking views on critical care, emergency general surgery, stroke, endoscopy, radiology, dermatology, orthopaedics and urology.

Penderfynwyd caniatáu i'r Clerc drefnu presenoldeb yn y Ffeiriau Haf yn y ddwy ysgol, a Ffair y Dref i ymgysylltu â thrigolion i gwblhau holiadur ar sut yr hoffent weld eu harian yn cael ei

wario. Penderfynwyd hefyd gynnal noson rhoi Grantiau flynyddol ar gyfer sefydliadau llwyddiannus, gan ddisodli'r hen system o wahodd gwesteion i gyfarfod. Byddai'r holiadur yn cael ei rannu yn ystod y noson ymgysylltu cyhoeddus ychwanegol hon.

It was resolved to allow the Clerk to organise a presence at the Summer Fairs in both schools, and the Town Fair to engage residents to complete a questionnaire on how they would wish to see their precept spent. It was also resolved to hold an annual Grant donation evening for successful organisations, replacing the old system of inviting guests to a meeting. The questionnaire would be shared during this additional public engagement evening.

6. Eitemau i'w cymryd mewn sesiwn breifat

I benderfynu pa eitemau, os o gwbl, o'r Agenda y dylid eu cymryd gyda'r cyhoedd wedi'u gwahraidd.

Eitem 8 h). Cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol y Brenin Siôr V nos Fercher 28 Mai 2025 - Cofnodion ac argymhellion.

Items to be taken in private session

To determine which items, if any, of the Agenda should be taken with the public excluded.

Item 8. h) King George V Advisory Committee Meeting Wednesday 28 May 2025 - Minutes and recommendations.

7. Cynllunio

Ystyried ceisiadau cynllunio a derbynnir a dadansoddi sylwadau priodol.

Planning

To consider planning applications received and resolve to submit appropriate comments.

<i>Rhif y Cais / App. No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
A250297	Penparc Sand and Gravel, Cnwc y Saeson, Penparc, Aberteifi, SA43 1RB.	<i>Amrywio amod rhif 1 o ganiatâd cynllunio C1/404 am 13 mlynedd ychwanegol ar ben y dyddiad a ganiateir eisoes / Vary condition no 1 of planning permission C1/404 for an additional 13 years over and above the existing permitted date.</i>	<i>Dim gwrthwynebiadau / No objections.</i>
A250341	One Stop Stores Ltd, 3 Feidrfair, Aberteifi, SA43 1EA.	<i>Gosod arwydd totem newydd wrth fynedfa'r safle / Installation of new totem sign at the entrance of the site.</i>	<i>Dim gwrthwynebiadau, ond mae'r cynghorwyr yn dymuno i'r iaith Gymraeg gael ei rhoi yn gyntaf ar yr arwydd os yn bosibl. / No objections, but councillors wish for the Welsh language to be placed first on the sign if possible.</i>
A250312	W Jones Jonsel Ltd, Black Lion Hotel, High Street, Aberteifi, SA43 1HJ.	<i>Toiledau newydd arfaethedig a storfa yn y cefn gyda phatio uwchben ynghyd â mân newidiadau mewnol a gwaith cysylltiedig / Proposed new replacement toilets and store to rear with patio area above plus minor internal alterations and associated works.</i>	<i>Mae'r cynghorwyr yn cefnogi'r cais hwn / The councillors support this application.</i>

A250369	C Turner, Naturewise Community Forest Garden, Parc Teifi, Aberteifi, SA43 1EW.	<i>Cegin awyr agored arfaethedig, sied feiciau, twnnel polythen a gwaith cysylltiedig</i> / Proposed outdoor kitchen, bike shed, polytunnel and associated works.	<i>Mae'r cynghorwyr yn cefnogi'r cais hwn</i> / The councillors support this application.
---------	--	---	---

8. Eitemau i'w hystyried a'u dadansoddi / Items for consideration and resolution

a) Biliau i'w talu / Bills to be paid.

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhif y Siec / Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
01/06/25	Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor</i> / Rent of Council Office (Mai/May) <i>Band Lydan (Mai)</i> / Broadband (May)	A9 A20	D/D	£291.67.00(0.00) £20.00 (0.00)
04/06/25	<i>Cyflog y Clerc</i> / Clerk's Salary (Mai/May)	A5	BACS	£1957.52(0.00)
04/06/25	HMRC – <i>Taliad TWE ar gyfer 6 Mai 2025 – 5 Mehefin 2025</i> / PAYE payment for 6 May 2025 – 5 June 2025.	A16	BACS	£639.53(0.00)
04/06/25	<i>Bachan Deche</i> / Handyperson (Mai/May)	A19	BACS	£00.00(0.00)
12/05/25	<i>Gwasanaeth cyfieithu</i> / Translating service	A18	BACS	£52.50(0.00)
08/05/25	Sharp – Monthly minimum copies fee	A7	BACS	£30.00(5.00)
04/06/25	2 x <i>Gwasanaeth y Brysgyllwr</i> / Mace bearer's fee	A6	BACS	£280.00(0.00)
04/06/25	Y Cyng / Cllr Olwen Davies: <i>Lwfans y Maer</i> / Mayor's allowance (50%) 2025-26.	A1	BACS	£1,000(0.00)
04/06/25	Y Cyng / Cllr Olwen Davies: <i>Rhoddion y Maer</i> / Mayor's Donations 2025-26.	D1	BACS	£620.00(0.00)
04/06/25	<i>Ffotograffydd</i> / Photographer	A6	BACS	£225.00(0.00)
02/04/25	Authentic Reclamation Ltd – roof tiles	A15	BACS	£36.00(6.00)
21/05/25	Bell Designs – OS Maps for flagpoles	C2	BACS	£77.18(12.86)
18/06/25	PEAC Solutions – Lease rental photocopier	A7	D/D	£121.20(20.20)
04/06/25	Y Cyng/Cllr John Adams-Lewis – <i>Lwfans</i> / Expenses	A3	BACS	£52.00(0.00)
04/06/25	Y Cyng/Cllr Nicholas Bolton – <i>Lwfans</i> / Expenses	A3	BACS	£52.00(0.00)
04/06/25	Y Cyng/Cllr Clive Davies – <i>Lwfans</i> / Expenses	A3	BACS	£52.00(0.00)
04/06/25	Y Cyng/Cllr Olwen Davies – <i>Lwfans</i> / Expenses	A3	BACS	£52.00(0.00)
04/06/25	Y Cyng/Cllr Elaine Evans – <i>Lwfans</i> / Expenses	A3	BACS	£52.00(0.00)
04/06/25	Y Cyng/Cllr Mark Cole – <i>Lwfans</i> / Expenses	A3	BACS	£52.00(0.00)
04/06/25	Y Cyng/Cllr Teresa Harries – <i>Lwfans</i> / Expenses	A3	BACS	£52.00(0.00)
04/06/25	Y Cyng/Cllr Richard Jones – <i>Lwfans</i> / Expenses	A3	BACS	£52.00(0.00)
04/06/25	Y Cyng/Cllr David Maehrlein – <i>Lwfans</i> / Expenses	A3	BACS	£52.00(0.00)
04/06/25	Y Cyng/Cllr Siân Maehrlein – <i>Lwfans</i> / Expenses	A3	BACS	£52.00(0.00)
04/06/25	Y Cyng/Cllr Philippa Noble – <i>Lwfans</i> / Expenses	A3	BACS	£52.00(0.00)
04/06/25	Y Cyng/Cllr Trystan Phillips – <i>Lwfans</i> / Expenses	A3	BACS	£52.00(0.00)
04/06/25	Y Cyng/Cllr Catrin Miles - <i>Lwfans</i> / Expenses	A3	BACS	£52.00(0.00)

Cynigodd y Cynghorwyr bod y biliau a restrwyd yn cael eu talu.

The Councillors proposed that the listed bills be paid.

Derbyniadau/Receipts:

09/04/2025	Lloyds Bank: <i>Llog</i> / Interest	£52.36
16/05/2025	Lawn Tennis Association: <i>Rhodd</i> /Grant	£6,468.34

Mynegodd y Cynghorydd Richard Davies yn ysgrifenedig cyn y cyfarfod ei fod yn dymuno gwrthod y ddau swm Treuliau Blynnyddol gorfodol o £156 a £52.

Cllr Richard Davies expressed in writing prior to the meeting that he wished to refuse both the mandatory Annual Expenses amounts of £156 and £52.

b) Apwyntio Archwilydd Mewnol am y flwyddyn ariannol 2025-26 a cytuno yr "Amodau Gorchwyl".

Cynigiwyd y cynghorwyr benodi Mr Gethin Davies yn Archwilydd Mewnol y cyngor ar gyfer cyfrifon ariannol 2025-26. Mae Mr Davies yn gyfrifydd cymwys a dyma fydd ei drydydd archwiliad mewnol i'r cyngor. Canmolodd y Clerc ei broffesiynoldeb a'i gymhwysedd yn y rôl. Er ei fod yn ddyn lleol, nid oes ganddo gysylltiad personol ag unrhyw un o'r cynghorwyr na'r cler.

Anfonwyd y Amodau Gorchwyl ymlaen at y Cynghorwyr cyn y cyfarfod a phenderfynwyd eu cymeradwyo.

Appointment of an Internal Auditor for the 2025-26 financial year and to approve the "Terms of Reference".

Councillors resolved to appoint Mr Gethin Davies as Internal Auditor of the council for the 2025-26 financial accounts. Mr Davies is a qualified accountant and this will be his third internal audit for the council. The Clerk commended his professionalism and competence in the role. Although he is a local man, he has no personal connection to any of the councillors or the clerk.

The Terms of Reference were forwarded to the Councillors prior to the meeting and it was resolved that they be approved.

c) Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
78	Anne Layzell – Pennaeth Cyfathrebu Cabinet, Llywodraeth Cymru / Head of Cabinet Communications, Welsh Government: 2 funud o dawlewch am 12 ganolddydd ar yr 18 Mai / 2 minute silence at 12 noon on 8 May.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 04/05/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 04/05/2025.
79	Betsan Moses – Prif Weithredwr / Chief Executive, Eisteddfod Genedlaethol Cymru: Gwahoddiad i gyhoeddi Eisteddfod y Garreg Las / Invitation to the Eisteddfod y Garreg Las proclamation.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 04/05/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 04/05/2025.
80	Wynne Jones – Presylwydd / Resident: Sylw ar gais cynllunio A240851 – Tir yn Dol y Dintir, Heol Newmill, Aberteifi SA43 1NE / Observation on planning application A240851 – Land at Dol y Dintir, Newmill Road, Cardigan SA43 1NE.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 06/05/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 06/05/2025.
81	Rhian Rees – Trysorydd, Clwb Rhwyfo Aberteifi / Treasurer, Cardigan Rowing Club: Ymateb i'r ymholiad ynghylch y grant ar gyfer y llithrfa / Response to the query regarding the grant for the slipway.	<i>Mae'r Cynghorwyr yn hapus gyda'r esboniadau dros yr oedi yn y prosiect ac yn ymddiried y bydd y grant yn cael ei ad-dalu i'r cyngor os na chaiff ei gwblhau / Cllrs are happy with the explanations for the delay in the project and trust that the grant will be repaid to the council if it fails to be completed.</i>
82	Emyr John – Swyddog cyfathrebu, Un Llais Cymru / Communications Officer, One Voice Wales: Datganiad i'r wasg Cynhadledd Gowbrau Cenedlaethol 2025 / Press Release National Awards Conference 2025.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 07/05/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 07/05/2025.
83	CSC Adain Cau Ffyrdd: Digwyddiad Arbennig Cau Ffordd / CCC Road Closures Section, Temporary Road closure order: C1081 Penparc, Aberteifi 08/05/2025-12/05/2025 0800:1800.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 08/05/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 08/05/2025.
84	Paul Elliott – Swyddog Arolygon, Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru / Review Officer, Democracy and Boundary Commission: Rhaglen Adolygu Etholiadol 2025 / Electoral Review Programme 2025.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 08/05/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 08/05/2025.
85	David Collins – Swyddog Datblygu Arfer Llywodraethau a Pholisi / Un Llais Cymru / Governance and Policy Practice	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 08/05/2025.</i>

	Development Officer, One Voice Wales: <i>Nodiadau Datblygu Arferion Diweddaraf / Latest Practice Development Notes.</i>	For your information. Forwarded to all councillors on 08/05/2025.
86	<i>Cyfeillion Parc Netpool / Friends of Netpool Park – Carden diolch am y rhodd / Thank you card for the grant.</i>	<i>Wedi'i rannu yn y cyfarfod / Shared in the meeting.</i>
87	Anne M Jones - <i>Trefnydd y Sir, CFFI Ceredigion / County Organiser, Ceredigion YFC: Diolch am y grant ar gyfer cynnal y Rali yn Ferwig eleni / Thank you for the grant for hosting the Rali in Verwig this year.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 09/05/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 09/05/2025.
88	Eleri Davies (Cadeirydd), Catrin Jones (Ysgrifenyddes) Siwan Thomas (Trysorydd) <i>Eisteddfod y Garreg Las 2026: Diolch am eich cyfraniad hael a'ch cefnogaeth / Thank you for your generous contribution and support.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 12/05/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 12/05/2025.
89	Steve Rice - <i>Diweddariad Adfywiad Pwll Aberteifi / Cardigan Pool Revival update.</i>	<i>Cyfeiriwch at y cofnodion ar y dudalen gyntaf / Please refer to minutes on the first page.</i>
90	Shan Williams – <i>Preswlydd / Resident: Pa gamau mae'r cyngor yn eu cymryd i wrthwynebu allforion arfau'r DU i Israel / What action is the council taking to oppose the UK's arms exports to Israel.</i>	<i>Nid yw Cynghorwyr yn teimlo bod materion cyfoes byd-eang o fewn eu cylch gwaith / Cllrs do not feel that World wide current affairs issues are within their remit.</i>
91	<i>Gardd Goedwig Gymunedol Naturewise Community Forest Garden: Diwrnod Gwirfoddolwyr a Blodau Ysgaw 17 Mai / Volunteer and Elderflower Day 17 May.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 13/05/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 13/05/2025.
92	Jordanne Jones – <i>Swyddog Cyswllt Cymunedol ar gyfer Jane Dodds AS, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / Community Liaison Officer for Jane Dodds MS, Welsh Liberal Democrats: Cais i ailsefydlu'r gwasaneth gofal brys ar benwythnosau / Attempt to reinstate the emergency care service on weekends.</i>	Penderfynodd y cynghorwyr ofyn i Jane Dodds AS, ysgrifennu'n uniongyrchol at Jeremy Miles AS i ofyn am ei gefnogaeth i adfer y gwasanaeth / Councillors resolved to request that Jane Dodds MS, write directly to Jeremy Miles MS to request his support in reinstating the service.
93	Amy Hughes – <i>Gweinyddwr Cymru, Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol / Wales Administrator, Social Farms and Gardens: Gwobrau Rheoli 2026 / Management Awards 2026.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 14/05/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 14/05/2025.
94	Jayne Evans – <i>Rheolwr, Cartref Gofal Glyn Nest / Manager, Glyn Nest Residential Home: Gwahoddiad i wythnos Agored / Invitation to the open week 2025.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 14/05/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 14/05/2025.
95	Wynne Jones – <i>Preswlydd / Resident: Sylw ar gais cynllunio A240176 - Ailddatblygu safle hen ysbyty yn Aberteifi / Observation on planning application A240176 – Redevelopment of former hospital site at Cardigan.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 15/05/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 15/05/2025.
96	Richard James, George Davies and Evans: <i>Prydles Meysydd Chwarae'r Brenin Siôr V – Clwb Rygbi Aberteifi / Lease of King George V Playing Fields – Cardigan Rugby Club.</i>	<i>Penderfynwyd llofnodi a chytuno ar brydles newydd am 21 mlynedd gyda Chlwb Rygbi Aberteifi. Fodd bynnag, bydd cymal torri allan cydfuddiannol yn cael ei osod bob 5 mlynedd i ganiatáu i gynghorwyr a Phwyllgor y Clwb Rygbi adolygu'r sefyllfa / It was resolved that a new lease for 21 years be signed and agreed with Cardigan Rugby Club. However, a mutual break out clause condition will be imposed every 5 years to allow councillors and the Rugby Club Committee to review the situation.</i>
97	Alfie Wainting – <i>Peiriannydd Prosiect, Adran Priffyrdd, Peirianeg ac YGC / Project Engineer, Highways, Engineering and YGC Department: Gwelliannau Seilwaith Safleoedd Bysiau Aberteifi / Cardigan Bus Stop Infrastructure Improvements.</i>	Penderfynwyd gofyn am adfer safle bws Ridgeway ac am fanylion pellach ynghylch y gwaith i'r ddau safle bws a ddewiswyd gan Adran YGC / It was resolved to ask for the Ridgeway bus stop to be reinstated and for further details regarding the work to the two bus stops selected by the YGC Department.
98	James Davies – <i>Prif Weithredur, Cymorth Cynllunio Cymru / Chief Executive, Planning Aid Wales: Rhaglen Hyfforddi Flynyddol / Annual Training Programme.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 15/05/2025.</i>

		For your information. Forwarded to all councillors on 15/05/2025.
99	Wendi Patience – <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: E-Bwletin / E-Bulletin.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 16/05/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 16/05/2025.
100	CSC Adain Cau Ffyrrdd: Digwyddiad Arbennig Cau Ffordd / CCC Road Closures Section, Temporary Road closure order: Netpool Road 16/06/2025 - 20/06/2025 07:00-19:30.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 16/05/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 16/05/2025.
101	Y Cyng/Cllr Catrin Miles: <i>Gwahoddiad i Gyngerdd Datganiad Organ gan Jane Watts yn Eglwys y Santes Fair / Invitation to an Organ Recital Concert by Jane Watts, St Mary's Church.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 16/05/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 16/05/2025.
102	Wynne Jones – <i>Presylwydd / Resident: Sylw ar gais cynllunio A240851 – Tir yn Dol y Dintir, Heol Newmill, Aberteifi SA43 1NE - llwybrau troed arfaethedig / Observation on planning application A240851 – Land at Dol y Dintir, Newmill Road, Cardigan SA43 1NE – proposed footpaths.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 19/05/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 19/05/2025.
103	Yusef Samari – Netpool Park Biodiversity Walk and draft Biodiversity Plan.	<i>Nododd y Cynghorwyr y Cynllun Bioamrywiaeth manwl ar gyfer Netpool a phenderfynu cynnwys Mr Samari ym mhob Cyfarfod o'r Pwyllgor Bioamrywiaeth yn y dyfodol oherwydd ei wybodaeth arbenigol yn y maes hwn / Councillors noted the detailed Biodiversity Plan for Netpool and resolved to include Mr Samari in all future Biodiversity Committee Meetings due to his expert knowledge in this field.</i>
104	<i>Bwletin Mis Mai Cynnal y Cardi May Bulletin.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 20/05/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 20/05/2025.
105	Jayne Owen – <i>Swyddog Ymgysylltu Cymunedol / Community Engagement Worker, Cyfle Cymru: Ardal werdd y tu allan i swyddfa BAROD ar Stryd Santes Fair / Green area outside BAROD office on St Mary Street.</i>	<i>Derbyniodd y Cynghorwyr fod gwasanaeth BAROD yn dymuno dychwelyd gofal y man gwyrdd hwn i Bachan Deche y Cyngor / Cllrs accepted that the BAROD service wish to return the care of this green space to the council Handyman.</i>
106	Lowri Edwards – <i>Swyddog Arweiniol, Gwasanaethau Democrataidd, CSC / Corporate Lead Officer, Democratic Services, CCC: Caru'ch Cymuned, categori newydd ar gyfer Gwobrau Caru Ceredigion 2025 / New category for Caru Ceredigion Awards 2025.</i>	<i>Penderfynodd y Cynghorwyr gynnig Joan Pocock a Pam Harris yn y gwobrau oherwydd eu hymroddiad a'u hymdrech i gadw Aberteifi'n ddaclus / Cllrs resolved to enter Joan Pocock and Pam Harris into the awards due to their commitment and effort in keeping Cardigan tidy.</i>
107	Alun Harries – <i>Swyddog Rhanbarthol Gorllewin a Chanolbarth Cymru, Un Llais Cymru / Mid & West Wales Development Officer, One Voice Wales: Ymgynghoriad ar gau safle gwastraff cartref / Household waste site closure and reduction.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 21/05/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 21/05/2025.
108	Gareth Richards – <i>Is-gadeirydd, Cynghair Morloi'r DU / Vice Chair, UK Seal Alliance: Ymgyrch achub ein morloi rhag modrwyau sy'n hedfan / Save our seals from flying rings campaign.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 22/05/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 22/05/2025.
109	Dr Catrin Jones – <i>Swyddog Polisi, Un Llais Cymru / Policy Officer, One Voice Wales: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – gwaith craffu ar ôl deddfu / Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 – post legislative scrutiny.</i>	<i>Penderfynwyd datgan nad oedd digon o atebolrwydd i gynghorau unedol wrth gyflawni'r ddeddfwriaeth o fewn y Ddeddf hon / It was resolved to state that there was not enough accountability for unitary councils in delivering the legislation in the Act.</i>
110	Joanne Smith – <i>Uwch Reolwr Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru / Senior Appointments Manager, Welsh Government: Mentor cymunedol i gyflwyno'r camau gweithredu gofal plant a gwaith chwarae yng Nghynllun</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 22/05/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 22/05/2025.

	<i>Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru / Community mentors to deliver the childcare and play work action in the Anti-racist Wales Action Plan.</i>	
111	Andrew Evans – <i>Peiriannydd Technegol, Ymgynghoriaeth Gwynedd / Technical Engineer, Gwynedd Consultancy: Gorsaf Fysiau Aberteifi Ymgysylltu â Rhanddeiliaid WelTAG / Cardigan Bus Station WelTAG Stakeholder Engagement.</i>	<i>Penderfynwyd gofyn am osod toiledau yn yr orsaf fysiau ac uwchraddio'r bwrdd gwybodaeth a'r safle yn gyffredinol / It was resolved to request that toilets be installed at the bus station and an upgrade to the information board and the site overall.</i>
112	Rachel Carter, <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Pethau Bychain: Gweminar pecynnau gardd am ddim Cadwch Gymru'n Daclus / Keep Wales Tidy Webinar about free garden packages – 02/06/25 11.00-12.00.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 23/05/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 23/05/2025.
113	Mathew Roebuck – <i>Swyddog Gweithgarwch a Chwarae Corfforol Cymunedol, CSC / Community Physical Activity & Play Officer, CCC: Grant Cyfalaf Man Chwarae Ceredigion 2025-26 / Ceredigion Play Area Capital Grant.</i>	<i>Penderfynwyd gwneud cais am eitem newydd o offer ar gyfer ardal chwarae Pentop / It was resolved to apply for a new item of equipment for the Pentop play area.</i>
114	Emyr John – <i>Swyddog cyfathrebu, Un Llais Cymru / Communications Officer, One Voice Wales: Adroddiad Cynhadledd Gwobrwy 2025 / National Awards Conference Report 2025.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 23/05/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 23/05/2025.
115	Nisha Williams – <i>Preswlydd Pentop / Pentop Resident: Rhestr o waith i'w gwblhau yn y parc chwarae / List of works for completion in the play area.</i>	<i>Rhannwyd y rhestr gyda'r Bachan Deche i'w chwblhau / The list was shared with the Handyman to complete.</i>
116	Sue Lewis – <i>Ysgrifenyddes, Cyfeillion Gofal Iechyd Aberteifi a'r Gymuned / Secretary, Friends of Cardigan and Community Health Care: Diolch i'r Maer am ei rhodd garedig / Thank you to the Mayor for her kind donation.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 27/05/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 27/05/2025.
117	Wynne Jones – <i>Preswlydd / Resident: Sylw ar gais cynllunio A240176 - Ailddatblygu safle hen ysbyty yn Aberteifi / Observation on planning application A240176 – Redevelopment of former hospital site at Cardigan.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 27/05/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 27/05/2025.
118	Dana Jones – <i>CSC/CCC: Ddiweddariad ar faterion Panel Arfarnu Cymru, Canfyddiadau Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus / Update on Adjudication Panel for Wales matters, the Public Service Ombudsman Code of Conduct Findings.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 27/05/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 27/05/2025
119	Claire Morgan – <i>Band Canu Clochau, Eglwys Santes Fair / Bell Ringing Band, St Mary's Church: Cais am gefnogaeth ar gyfer prosiect Adfer Cloch Eglwys Santes Fair / Request for support for St Mary's Church Bell Restoration project.</i>	<i>Mae llythyr cefnogaeth a chais am grant wedi cael eu hanfon ymlaen at y grŵp / A letter of support and a grant application have been forwarded to the group.</i>
120	Jake Rayson – <i>Cynorthwydd Biosmarywiaeth, CSC / Biodiversity Assistant, CCC: Rheoli Parc Netpool / Netpool Park Management.</i>	<i>Penderfynwyd hysbysu Mr Rayson fod y Cynghorwyr yn dymuno gadael y safle hwn nes bod y gwaith yn y canolfan trin dŵr wedi'i gwblhau / It was resolved to inform Mr Rayson that Cllrs wish to leave this site until the works in the water treatment plant are completed.</i>
121	David Collins – <i>Swyddog Datblygu Arfer Llywodraethu a Pholisi, Un Llais Cymru / Governance and Policy Practice Development Officer, One Voice Wales: Nodyn Datblygu Ymarfer, Gweithredoedd ariannol blynyddol, mae gwersi pwysig yn dod i'r amlwg / Practice Development Note, Annual financial actions, important lessons emerge.</i>	<i>Hysbysodd y Clerc y cynghorwyr fod rhai gwersi yn yr adroddiad y mae angen eu gweithredu, a chytunasant i gefnogi'r newidiadau angenrheidiol / The Clerk informed the councillors that there are certain lessons within the report that needed to be implemented, they agreed to support the necessary changes.</i>
122	Wynne Jones – <i>Preswlydd / Resident: Sylw ar gais cynllunio A240176 - Ailddatblygu safle hen ysbyty yn Aberteifi / Observation on planning application A240176 – Redevelopment of former hospital site at Cardigan.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 29/05/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 29/05/2025
123	Y Cyng/Cllr Clive Davies: <i>Cais perchnogion siop am faneri ar Stryd Santes Fair / Shop owner's request for bunting on St Mary's Street.</i>	<i>Penderfynwyd codi baneri ar Stryd Santes Fair / It was resolved to erect bunting on St Mary Street.</i>
124	Mark Henwood – <i>Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol/Executive Medical Director, Hywel Dda: Ymgynghoriad Cynllun Gwasanaethau Clinigol, -</i>	<i>Bydd Cynghorwyr yn hysbysu'r Clerc os ydynt am fynychu er mwyn archebu lleoedd / Councillors will</i>

	<i>Gwahoddiad I gyfarfod I gynhorau Tref a Chymuned Ceredigion, 12 Mehefin / Clinical Services Plan Consultation - Invitation to a meeting for Ceredigion Town and Community Councils 12 June.</i>	inform the Clerk if they wish to attend in order for spaces to be reserved.
125	<i>Bwletin Costau Byw Ceredigion: Cymorth I Bobl Hyn / Ceredigion Cost of Living Bulletin: Support for Older People.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 30/05/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 30/05/2025
126	<i>Claire Morgan – Band Canu Clochau, Eglwys Santes Fair / Bell Ringing Band, St Mary's Church: Gwahoddiad Noson Agored y Tŵr Cloch / Bell Tower Open Evening Invitation.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 30/05/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 30/05/2025
127	<i>Emily Edwards – Rheolwr Partneriaeth Gymunedol, Cymuned Aberteifi / Community Partnership Manger, Cardigan Community: Poster Digwyddiad Llesiant a Chymorth Hyrwyddo / Wellbeing Event Poster and Promotional Support.</i>	<i>Penderfynwyd y byddai'r Maer, y Cynghorwyr a'r Clerc yn mynychu'r digwyddiad hwn fel digwyddiad ymgynghori cyhoeddus / It was resolved that the Mayor, Councillors and the Clerk would attend this event as a public consultation event.</i>
128	<i>Wynne Jones – Presylwydd / Resident: Sylw ar gais cynllunio A240851 – Tir yn Dol y Dintir, Heol Newmill, Aberteifi SA43 1NE - llwybrau troed arfaethedig / Observation on planning application A240851 – Land at Dol y Dintir, Newmill Road, Cardigan SA43 1NE – proposed footpaths.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 02/06/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 02/06/2025
129	<i>Yvonne O'Neil – Blodau canol y dref / Town Centre Flowers.</i>	<i>Esboniodd y Bachan Deche fod oedi byr wedi bod oherwydd y tywydd cawodog a gwyntog. Roedd y blodau i fod allan yr wythnos olaf ym mis Mai fel y maent bob blwyddyn, ond mae'n aros am yr amodau cywir, mae'r planhigion yn barod i fynd / The Handyman explained there had been a short delay due to the showery and windy weather conditions. The flowers were intended to be out the last week in May as they are every year, but he is waiting for the correct conditions, the plants are ready to go.</i>
130	<i>Joy Edwards - Blodau canol y dref / Town Centre Flowers.</i>	<i>Gweler uchod / See above.</i>
131	<i>Gavin Bown – Pennaeth Gweithredu Canolbarth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru / Head of Mid Wales Operations, Natural Resources Wales: Diweddariad ar Gynllun Llifogydd Llanw Aberteifi / Update on Cardigan Tidal Flood Scheme.</i>	<i>Penderfynwyd y byddai'r cynghorwyr yn ymateb yn unigol i'r diweddariad hwn / It was resolved that the councillors would respond individually to this update.</i>
132	<i>Clwb Achub Bywyd o'r Môr Poppit / Poppit Sands Surf Lifesaving Club: Cais am gymorth ariannol / Application for financial support.</i>	<i>I'w trafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Gorffennaf.</i> To be discussed at the July Grants Sub-committee.
133	<i>Cymdeithas Ffrindiau Ysgol Gynradd Aberteifi / Friends of Cardigan Junior School Association: Cais am gymorth ariannol / Application for financial support.</i>	<i>I'w trafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Gorffennaf.</i> To be discussed at the July Grants Sub-committee.

d) Penodi aelodau'r Is-Bwyllgorau a cytuno Amodau Gorchwyl yr Is-Bwyllgorau.

Cafodd y rhestr flaenorol ei chraffu gan yr aelodau a'i diwygio yn unol â hynny. Bydd copi o restr 2025-26 yn cael ei anfon at yr aelodau maes o law. Penderfynwyd cymeradwyo Cylch Gorchwyl diwygiedig yr Is-bwyllgorau.

Appoint Sub-Committee members and approve Sub-Committee Terms of Reference. The previous list was scrutinised by members and revised accordingly. A copy of the 2025-26 list will be forwarded to members in due course. It was resolved to approve the revised Sub-Committee Terms of Reference.

e) Adolygu a chymeradwyo'r Polisi Cyfryngau Cymdeithasol.

Penderfynwyd cymeradwyo'r Polisi Cyfryngau Cymdeithasol heb unrhyw newidiadau.

Revise and approve the Social Media Policy.
It was resolved to approve the Social Media Policy with no changes.

f) Dyfynbrisiau ar gyfer chwistrellu lladdwr chwyn.

Penderfynwyd derbyn y dyfynbris gan Enviroworx Wales Ltd a dechrau chwistrellu'r chwynlladdwr cyn gynted â phosibl. Penderfynwyd hefyd newid y gyfradd ar gyfer y Bachan Deche i £25 yr awr, gan mai dyma gost cyflogi gwasanaethau o'r fath yn y gweithle bresennol.

Quotes for spraying weed killer.

It was resolved to accept the quote from Enviroworx Wales Ltd and for the spraying of herbicide to commence as soon as possible. It was also resolved to change the rate for the Handyman to £25 per hour, as this is the cost of employing such services in the current workplace.

g) Cyfarfod Grŵp Bioamrywiaeth.

Byddai'r Clerc yn trefnu amser addas i aelodau newydd y pwyllgor ac yn gofyn i Mr Yusef Sumari ymuno â nhw.

Bio Diversity Group Meeting.

The Clerk would arrange a time suitable to the new committee members and ask Mr Yusef Sumari to join them.

h) Cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol y Brenin Siôr V nos Fercher 28 Mai 2025 - Cofnodion ac argymhellion.

Penderfynwyd trafod yr eitem hon "Mewn Pwyllgor" heb gynnwys y wasg.

King George V Advisory Committee Meeting Wednesday 28 May 2025 - Minutes and recommendations.

It was resolved to discuss this item "In Committee" with the exclusion of the press.

9. Eitemau er gwybodaeth yn unig / Items for information only

a) Dyddiadur y Maer.

	Dosbarthwyd 3 phecyn Cadwch Gymru'n Daclus drwy gydol y mis.
8 Mai	Gwasanaeth diwrnod VE, Senotaff Aberteifi.
10 Mai	Dathliad diwrnod VE yn Maesglas, Aberteifi.
13 Mai	Cyfarfod yng Ngorsaf Dân Aberteifi gyda diffoddwyr tân lleol.
16 Mai	Seremoni Sefydlu'r Maer, Aberystwyth.
17 Mai	Cyhoeddi Eisteddfod y Garreg Las, Narberth.
20 Mai	Gwirfoddoli ar gyfer Elusen Tir Dewi.
21 Mai	Swper Cegin Teifi.
29 Mai	Cyfarfod PACT.
31 Mai	Cinio Blynyddol Clwb Rygbi Aberteifi
1 Mehefin	Gwirfoddoli mewn digwyddiad codi arian ar gyfer Nyrsys Ardal Aberteifi.

Mayor's Diary

	Distributed 3 Keep Wales Tidy packs throughout the month.
8 May	VE Day Service at the Cardigan Cenotaph
10 May	VE Day Celebration at Maesglas, Cardigan.
13 May	Meeting in Cardigan Fire Station with local fire fighters.

16 May	Mayor Inauguration Ceremony, Aberystwyth.
17 May	The Eisteddfod y Garreg Las Proclamation, Narberth.
20 May	Volunteered for Tir Dewi Charity.
21 May	Cegin Teifi Supper.
29 May	PACT Meeting
31 May	Cardigan Rugby Club Annual Dinner
1 June	Volunteering at a fundraising event for Cardigan District Nurses.

b) Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.

Y Cyng Siân Maehrlein Ward Mwldan

- Gofynnais i'r marciau ffordd gwyn ar gylchfan Home Bargains gael eu hail-baentio, a chodi arwydd "Ildiwch" wrth adael y safle.
- Gwasanaeth Diwrnod VE, Senotaff Aberteifi.
- Casglu sbwriel yn Felin Ban.
- Mae'r Cyng David Maehrlein a minnau wedi bod yn brysur yn torri clawdd y Llwybr yn Felin Ban.
- Gofynnwyd eto am wasanaeth bws i gynnwys Home Bargains ar eu taith.
- Cyfarfod PACT.
- Cynorthwyais breswilydd gydag ymholiad ynghylch cynnydd o 150% yn nhreth y cyngor.

Cllr Siân Maehrlein Mwldan Ward

- I requested that the white road markings on the Home Bargains roundabout be repainted, and a "Give Way" sign erected on leaving the site.
- VE Day Service, Cardigan Cenotaph.
- Litter pick in Felin Ban.
- Cllr David Maehrlein and myself have been busy cutting the hedge of the Bridal Path in Felinban.
- Requested again for a bus service to include Home Bargains on their route.
- PACT Meeting.
- Assisted a resident with a 150% rise in council tax query.

Y Cyng Elaine Evans Ward Teifi

- Roedd CSC wedi trefnu gwaith i atgyweirio'r ardal eistedd llechi yng Ngilfach Penbont ar gyfer dydd Llun 12fed Mai, ond yn anffodus canslodd y cwmni, mae CSC yn eu holi am ddyddiad newydd.
- Rwyf wedi helpu preswilydd gyda phroblem fermin ac wedi cynnwys CSC.
- Gwasanaeth Diwrnod VE yn Senotaff Aberteifi
- Ymunodd y Cyngorydd Nick Bolton â mi i asesu rhai slabiau palmant toredig a sigledig ar y Stryd Fawr, anfonais e-bost at Clic i ofyn i dîm ddod i lawr i archwilio neu atgyweirio/amnewid slabiau toredig oherwydd problemau iechyd a diogelwch. Rwy'n falch o'ch hysbysu bod y gwaith hwn wedi'i wneud.

- Ymwelais â Gorsaf Dân Aberteifi gyda'r Cyng Sian Maehrlein a Olwen Davies i drafod y problemau diogelwch ffyrdd a phroblemau parcio ar Ffordd Bath House i Bendre o'r orsaf dân. Rwyf wedi cysylltu â CSC ynglŷn â hyn, gan wahodd swyddogion i ymweld â'r orsaf ac i weld lluniau camera dangosfwrdd sydd wedi'u casglu i brofi'r mater.
- Adroddais i Clic am gyflwr y ffens y tu ôl i'r toiledau yn Feidr Fair, mae'n pydru ac yn anniogel.
- Mae staff CSC wedi bod yn strimio'r Fynwent a'r Senotaff ar ôl fy nghais diweddar.
- Adroddais am rywfaent o dipio anghyfreithlon y tu ôl i'r pwynt ailgylchu ym Maes Parcio Stryd y Cei a gofynnais iddo gael ei symud.
- Mynychais Gyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn gynharach y mis hwn i drafod y Rhaglen Datblygu Asedau, Diogelu Data a pholisi GDPR y DU, yn ogystal â throsolwg o faterion ariannol yn ystod y flwyddyn. Darllenais argymhellion y pwyllgor ar gyfer polisi GDPR y DU yn y Cabinet heddiw.
- Roedd cyfarfod trosolwg a chraffu lle mae cadeiryddion pwyllgorau craffu yn cynghori ar eu cynllun gwaith ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.
- Byddaf yn gwneud cais am Grant Offer Maes Chwarae ar gyfer Côn Ddringo newydd i'w osod ym Mhentop, a gefnogwyd gan gyd-aelodau yn gynharach yn y cyfarfod.

Cllr Elaine Evans Teifi Ward

- CCC had organised work to repair the slate seating area at Gilfach Penbont for Monday 12th May, but unfortunately the company cancelled, CCC are chasing them up for a new date.
- I have helped a resident with a vermin problem and involved CCC.
- VE Day service at Cardigan Cenotaph
- Cllr Nick Bolton joined me to assess some broken and wobbly pavement slabs on the High Street, I emailed Clic to ask a team to come down to inspect or repair/replace broken slabs due to health and safety issues. I am pleased to inform you this work has been carried out.
- I visited Cardigan Fire Station with Cllr Sian Maehrlein and Cllr Olwen Davies to discuss the road safety problems and parking issues on Bath House Road to Pendre from the fire station. I've contacted CCC about this, inviting officers to visit the station and to view dashcam footage that has been collected to corroborate the issue.
- Reported to Clic the condition of the fence behind the toilets at Feidr Fair, it is rotting and unsafe.
- CCC staff have been to trim the Cemetery and the Cenotaph after my recent request.
- Reported some fly tipping behind the recycling point in Quay Street Carpark and asked for it to be removed.
- Attended a Corporate Resources Overview and Scrutiny Committee Meeting earlier this month to discuss the Asset Development Programme, Data Protection and the UK GDPR policy, as well as an overview of in year financial matters. I read out the committee's recommendations for the UK GDPR policy in Cabinet today.
- There was an overview and scrutiny meeting where chairs of scrutiny committees advise their forward work plan for future meetings.
- I will be applying for a Playground Equipment Grant for a new Climbing Cone to be installed at Pentop, which fellow members supported earlier in the meeting.

c) Adroddiad y Bachan Deche / Handyperson's Report.

i) Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed

Bydd cynllun ar gyfer uwchraddio'r safle hwn yn cael ei gwblhau gyda'r Clerc i'n galluogi i dendro am grantiau i wneud y gwaith.

King George 5th Children's Play Area

A plan for the upgrade of this site will be completed with the Clerk to enable us to tender for grants to carry out the work.

ii) Man chwarae amlbwrpas a chyrtau tenis/ Multi-purpose play area and Tennis Courts.

Dim yw adrodd / Nothing to report.

iii) Maes Sgrialu /Skateboard Park

Dim yw adrodd / Nothing to report.

iv) Cae Chwarae Pentop

Mae'r porfa wedi'i dorri a'i strimio, y ffens wedi'i thrwsio a'r bin wedi'i wagio. Bydd y brif giât yn cael ei thrwsio a'r giât fach newydd yn cael ei gosod dros yr ychydig wythnosau nesaf.

Pentop Play Area

The grass has been cut and strimmed, the mesh fence repaired and the bin emptied. The main gate will be repaired and the small new gate installed over the next few weeks.

v) Cyffredinol / General

Mae'r blodau'n barod ond mae'r gosodiad yng nghanol y dref wedi'i ohirio oherwydd cawodydd trwm a gwyntoedd cryfion. Unwaith y bydd y tywydd yn gwella digon i beidio â difrodi'r blodau, byddant yn cael eu dosbarthu / The flowers are ready but the placing in the centre of town has been delayed due to heavy showers and strong winds. Once the weather improves enough not to damage the flowers, they will be distributed.

d) Amserlen waith mân.

Adolygydd a chytunwyd ar yr amserlen gan y cynghorwyr.

Minor works schedule.

The schedule was reviewed and agreed by the councillors.

10. Eitemau ar gyfer yr Agenda nesaf.

Polion Baneri

Adroddiad o'r Cyfarfod Costau Parcio Masnachwyr

Items for the next Agenda.

Flagpoles

Report from the Traders Parking Cost Meeting

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 21.30yh.

There being no further business to discuss, the meeting closed at 21.30pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date